Natur Ar Eich Stepen Drws

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod, ewch i amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

Canllaw i grwpiau ffosil cyffredin

Gall ffosilau ffurfio pan fydd planhigyn neu anifail sydd wedi ei gladdu am filiynau o flynyddoedd yn cael ei ddisodli gan fwynau. Defnyddiwch y canllaw hwn i ddysgu rhagor am bob math o anifail: pryd oedd yn byw, beth fyddai'n ei fwyta, a pha grŵp mawr (neu ffylwm) yr oedd yn perthyn iddo.

AMGUEDDFA CYMRU

005a

Trilobitau

Wedi darfod

Ffylwm: Arthropoda (Trilobita)
Cynefin: Morol
Dyddiad: 520 - 250 miliwn o flynyddoedd yn ôl

Roedd trilobitau yn rhan enfawr o fywyd morol cynnar. Mae ganddynt gorff cylchrannog fflat fel pryfed lludw. Roedd rhai yn ysglyfaethwyr, roedd eraill yn chwilota am sbwriel, neu'n porthi ar dameidiau. Roedden nhw'n anifeiliaid oedd yn nofio'n rhydd. Maint rhwng 3 mm a 70 cm.

Amonitau

Wedi darfod

Ffylwm: Mollusca (Cephalopoda)
Cynefin: Morol
Dyddiad: 200 - 66 miliwn o flynyddoedd yn ôl

Mae cregyn amonit fel arfer yn dorch mewn troell fflat. Roedd gan yr anifail dentaclau fel ystifflog y tu mewn. Roedden nhw'n perthyn i gregyn Pedr ac ystifflog. Roedden nhw'n ysglyfaethwyr oedd yn nofio'n rhydd. Maint o 3 mm hyd at 1.8 m ar draws.

Graptolitau

Wedi darfod

Ffylwm: Graptolithina
Cynefin: Morol
Dyddiad: 500 - 350 miliwn o flynyddoedd yn ôl

Anifeiliaid cytrefol oedd yn arnofio mewn moroedd dwfn, ac yn porthi ar ronynnau bychan wedi'u hidlo allan o'r dŵr môr. Roedd pob un o'r dannedd bach ar y canghennau yn cynnwys anifail microsgopaidd, neu sõoid. Roedd cytrefi fel arfer yn llai na 10cm ar eu hyd.

Bryozoaid

Ffylwm: Bryozoa
Cynefin: Morol gan fwyaf
Dyddiad: 500 miliwn o flynyddoedd yn ôl hyd heddiw

Anifeiliaid bychan sy'n hidlwyr bwyd sydd wedi'u cysylltu at ei gilydd yn gytrefi mwy (yn debyg i gwreli). Mae anifeiliaid unigol, neu sõoidau, yn llai nag 1 mm, ond gall eu cytrefi fod sawl metr o hyd.

Cregyn Deufalf

Ffylwm: Mollusca (Bivalvia)
Cynefin: Morol a dŵr croyw
Dyddiad: 500 miliwn o flynyddoedd yn ôl hyd heddiw

Mae gan gregyn deufalf ddwy gragen anghymesur sydd wedi eu cysylltu drwy gymal colfach. Mae rhai cregyn deufalf yn cloddio yng ngwely'r môr, mae eraill yn sownd wrth gerrig, neu'n nofio'n rhydd. Maen nhw'n hidlwyr bwyd gan fwyaf. Maint o ychydig filimedrau hyd at 1.3m.

Brachiopodau

Ffylwm: Brachiopoda
Cynefin: Morol
Dyddiad: 540 miliwn o flynyddoedd yn ôl hyd heddiw

Mae gan Brachiopodau (yn wahanol i gregyn deufalf) ddwy gragen o wahanol siâp sy'n gymesur. Maen nhw hefyd yn hollol wahanol i gregyn deufalf ar y tu mewn. Maen nhw'n hidlwyr bwyd, naill ai'n cloddio neu yn sownd wrth wely'r môr. Maint o 1 mm hyd at 35 cm.